# Ymateb i'r Ymgynghoriad/ Consultation Response

**Dyddiad / Date: 8 Mawrth 2022**

**Pwnc / Subject: Diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol: Bil Hawliau Modern**

A ninnau'n Gomisiynwyr Plant ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon, a'r Alban, byddwn yn canolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar blant a'u teuluoedd yn y gwledydd datganoledig. Er bod ein swyddogaethau statudol yn wahanol[1], rydym oll yn Sefydliadau Hawliau Plant Annibynnol a sefydlwyd yn unol ag egwyddorion y Cenhedloedd Unedig.[2] Mae ein cylchoedd gwaith yn canolbwyntio ar hyrwyddo a diogelu hawliau plant, yn enwedig o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), wedi'i lywio gan farn a phrofiadau plant.

Drwy ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (CEHD) mewn cyfraith ddomestig, bu'r Ddeddf Hawliau Dynol yn hanfodol i hyrwyddo hawliau plant yn y DU. O dan yr addewid o 'ddod â hawliau adref', mae'r Ddeddf wedi grymuso plant y treisiwyd eu hawliau i gael ateb mewn llysoedd cenedlaethol, yn hytrach na gorfod mynd i Lys Hawliau Dynol Ewrop yn Strasbourg. Mae'r gofyniad i awdurdodau cyhoeddus weithredu'n gyson â hawliau'r CEHD o dan Adran 6 wedi ymgorffori hawliau dynol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gan leihau'r angen i blant a'r rhai sy'n cynrychioli eu buddiannau droi at ymgyfreitha i orfodi hawliau.

Bu'r CEHD yn rym ar gyfer newid cadarnhaol yn ein cymdeithas, gan effeithio nid yn unig ar ddatblygu ein cyfreithiau ond hefyd ein hagweddau. Ni ellir gorbwysleisio ei effaith. Yn hyn o beth, byddem yn tynnu sylw at gyfreitheg Llys Hawliau Dynol Ewrop ar gosb

[1] Gweler Deddf a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001; Deddf Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc (yr Alban) 2003; a Gorchymyn Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 2003

[2] Egwyddorion sy'n ymwneud â Statws Sefydliadau Cenedlaethol (Egwyddorion Paris) a fabwysiadwyd gan benderfyniad 48/134 y Cynulliad Cyffredinol ar 20 Rhagfyr 1993; a Sylw Cyffredinol y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn rhif 2 (2002): Rôl sefydliadau hawliau dynol cenedlaethol annibynnol wrth hyrwyddo a diogelu hawliau'r plentyn

gorfforol. Ym 1982, ystyriodd y llys achosion Mrs Campbell a Mrs Cosans, dwy fam yn yr Alban a oedd yn gwrthwynebu defnyddio cosb gorfforol yn yr ysgolion gwladol a fynychwyd gan eu meibion. Canfu'r llys fod Erthygl 2 o Brotocol 1, ac yn benodol hawl y rhieni i sicrhau addysg i’w plant sy’n gyson â'u hargyhoeddiadau athronyddol, wedi'i thorri. Cyflwynwyd deddfwriaeth wedyn a oedd yn gwahardd cosb gorfforol mewn ysgolion gwladol. Yn ogystal, canfu carreg filltir o ddyfarniad Strasbourg ym 1998 ar gosb gorfforol yn y cartref nad oedd cyfraith Lloegr yn amddiffyn plant yn ddigonol rhag triniaeth neu gosb a oedd yn groes i Erthygl 3.[3] Mae diwygio'r gyfraith ar y mater hwn wedi arwain at Senedd yr Alban yn 2019 yn dileu amddiffyniad ymosodiad cyfiawnadwy o gyfraith yr Alban.[4] Dilynodd Senedd Cymru yr un llwybr flwyddyn yn ddiweddarach wrth ddileu amddiffyniad cosb resymol.[5]

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol hefyd yn rhan ganolog o'r setliad datganoli yn y DU. Mae rôl y CEHD yn y statudau datganoli wedi helpu i ymgorffori parch at hawliau dynol mewn camau gweithredol a gweinyddol yng Nghymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon.[6]

Yn y tair gwlad i gyd, symudwyd at wella amddiffyniadau hawliau dynol i blant. Er enghraifft, ym mis Ionawr 2011, derbyniwyd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a oedd yn gosod dyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i roi sylw priodol i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sylweddol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol. Ym mis Mawrth 2021, ar ôl dros 10 mlynedd o ymgyrchu gan blant, pobl ifanc a chymdeithas sifil ehangach, derbyniodd Senedd yr Alban Fil CCUHP (Ymgorffori) (yr Alban) a fydd yn ymgorffori CCUHP yn llawn ac yn uniongyrchol yng Nghyfraith yr Alban. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â chynigion i ymgorffori cytundebau hawliau dynol rhyngwladol eraill yng Nghyfraith yr Alban.[7]

Rydym o'r farn bendant bod angen amddiffyniad y Ddeddf Hawliau Dynol (sy'n cwmpasu hawliau’r CEHD) a hawliau CCUHP mewn cyfraith ddomestig ar blant yn y DU.[8]

Bydd y cynigion a nodir ym mhapur ymgynghori'r Llywodraeth[9] yn gwanhau'n sylweddol y ffordd y caiff hawliau plant eu diogelu yn y DU. Nid ydym yn argyhoeddedig bod y rhesymeg dros "atal ehangu hawliau'n raddol heb oruchwyliaeth ddemocrataidd briodol" wedi'i chadarnhau mewn cyfraith achosion ac yn ymarferol. Rydym yn pryderu y bydd y cynigion yn cael effaith negyddol ar allu plant a'u cynrychiolwyr i orfodi eu hawliau. Rydym hefyd yn pryderu y bydd y cynigion yn amharu ar ddehongli hawliau penodol, yn enwedig Erthygl 8. Nid ydym o'r farn bod y papur ymgynghori wedi ystyried yn llawn yr effaith y bydd y cynigion yn ei chael ar y fframwaith datganoli. Yn olaf, bydd y cynigion yn

[3] A v Y Deyrnas Unedig, rhif cais 25599/94
[4] Deddf Plant (Amddiffyniad Cyfartal rhag Ymosodiadau) (Yr Alban) 2019
[5] Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020
[6] Y Cydbwyllgor Hawliau Dynol, Adolygiad Annibynnol y Llywodraeth o'r Ddeddf Hawliau Dynol, Trydydd Adroddiad Sesiwn 2021–22, Cyhoeddwyd ar 8 Gorffennaf 2021, Paragraff 237. Ar gael yn: https://committees.parliament.uk/publications/6592/documents/71259/default/
[7] https://www.gov.scot/news/next-step-towards-scottish-human-rights-bill/
[8] Rydym yn cytuno â'r dystiolaeth ysgrifenedig o Erthygl 39, HRA0017. https://committees.parliament.uk/writtenevidence/22958/pdf/
[9] *Human Rights Act Reform: A Modern Bill of Rights* – ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ar 14 Rhagfyr 2021. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/consultations/human-rights-act-reform-a-modern-bill-of-rights

gwanhau ymrwymiad y DU i'r CEHD, a bydd yn mentro niweidio'r berthynas rhwng y DU a Chyngor Ewrop (yn enwedig Llys Hawliau Dynol Ewrop).

O dan Bennod 3 o'r cynigion hyn, y feirniadaeth a nodwyd o'r Ddeddf Hawliau Dynol yw bod diwylliant hawliau wedi tyfu, sydd wedi creu ansicrwydd cyfreithiol a bod ehangu hawliau yn peri risg i ddiogelu'r cyhoedd. Fel Comisiynwyr y mae eu cylchoedd gwaith deddfwriaethol wedi'u gwreiddio'n gadarn ac yn falch mewn hawliau dynol rhyngwladol plant, ni allwn anghytuno'n gryfach ag unrhyw gynigion sy'n ceisio lleihau'r twf pwysig mewn ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o hawliau dynol pobl eraill. At hynny, mae ein dibenion statudol yn ein rhoi mewn gwrthwynebiad diametrig i gynigion Llywodraeth y DU yn hyn o beth.

Ymhelaethwn ar bob un o'r pryderon hyn isod.

## Y Ddeddf Hawliau Dynol a Datganoli

Bydd unrhyw newid i'r Ddeddf Hawliau Dynol yn effeithio ar bobl a llywodraethu Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Un o'r rhesymau dros hyn yw oherwydd bod gofyn i'r gweinyddiaethau datganoledig weithredu'n gyson â hawliau'r CEHD wrth ddeddfu. Er enghraifft, mae adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi nad oes gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud na chymeradwyo unrhyw fath o ddeddfwriaeth sy'n anghydnaws ag unrhyw un o hawliau'r Confensiwn.

### Gogledd Iwerddon

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod pwysigrwydd canolog mecanweithiau cadarn i ddiogelu hawliau dynol yn y setliad heddwch yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys yr ymrwymiad canlynol yng Nghytundeb Belfast (Dydd Gwener y Groglith) 1998:

> "bydd Llywodraeth Prydain yn cwblhau corffori yng nghyfraith Gogledd Iwerddon y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y CEHD), gyda mynediad uniongyrchol i'r llysoedd, a rhwymedïau ar gyfer torri'r Confensiwn, gan gynnwys pŵer i'r llysoedd ddirymu deddfwriaeth y Cynulliad ar sail anghysondeb."[10]

Roedd paragraff 9 o'r adran hon o'r Cytundeb yn amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Iwerddon wedi ymrwymo i'w cymryd i sicrhau cyfatebiaeth hawliau ledled yr ynys.

Dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn y refferendwm ar ymadawiad y DU â'r UE, mae'r effaith bosibl ar ddiogelu hawliau yng Ngogledd Iwerddon, a'r goblygiadau i'r broses heddwch, wedi dod yn destun pryder mawr. Yn ôl Erthygl 2 protocol Gogledd Iwerddon o'r Cytundeb Ymadael:

> "Rhaid i'r Deyrnas Unedig sicrhau nad oes unrhyw ostyngiad mewn hawliau, mesurau diogelu na chyfle cyfartal, fel y nodir yn y rhan honno o Gytundeb 1998 o dan y teitl Hawliau, Trefniadau Diogelu a Chyfle Cyfartal, yn digwydd yn sgil ei hymadawiad â'r Undeb, gan gynnwys ym maes amddiffyn rhag gwahaniaethu, fel y corfforir yn narpariaethau cyfraith yr Undeb a restrir yn Atodiad 1 i'r Protocol hwn, a bydd yn gweithredu'r paragraff hwn drwy fecanweithiau pwrpasol."

---

[10] NIO, 1998, Cytundeb Belfast (Dydd Gwener y Groglith) 1998, Paragraff 3 o'r adran 'Hawliau, Trefniadau Diogelu a Chyfle Cyfartal'.

Rydym yn falch bod y llywodraeth yn datgan ei hymrwymiad llawn i Gytundeb Belfast (Dydd Gwener y Groglith) yn y ddogfen ymgynghori.[11] Fodd bynnag, nid oes unrhyw fanylion ynghylch sut y mae'r llywodraeth yn bwriadu parhau i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn, ond yn hytrach rhoir sicrwydd amwys: "ni fydd ein diwygiadau arfaethedig yn tanseilio'r Cytundeb hwnnw."

Er ei bod yn gywir nad yw'r Cytundeb yn nodi sut y byddai'r CEHD yn cael ei ymgorffori yng nghyfraith Gogledd Iwerddon, mae'n ymddangos bod y datganiad y bydd "unrhyw ddiwygiad yn cadw hawliau'r Confensiwn wedi'u hymgorffori yng nghyfraith Gogledd Iwerddon ac yn wir cyfraith y DU" yn groes i weddill y ddogfen ymgynghori sy'n amlinellu sut y mae'r llywodraeth yn bwriadu disodli'r Ddeddf Hawliau Dynol â Bil Hawliau gyda darpariaethau a chymwysiadau mwy cyfyngedig. Bydd unrhyw ostyngiad yn hawliau'r CEHD, neu yn y rhwymedïau sy'n agored i unigolion am achosion o dorri'r hawliau hyn, yn torri Cytundeb Belfast (Dydd Gwener y Groglith) a Phrotocol Gogledd Iwerddon yn uniongyrchol.

Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn cydnabod yr ymrwymiad yn y Cytundeb i Fil Hawliau ar gyfer Gogledd Iwerddon ond mae'n awgrymu y gallai prosesau Bil Hawliau ar gyfer y DU ac ar gyfer Gogledd Iwerddon gydredeg ac atgyfnerthu ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r Bil Hawliau ar gyfer Gogledd Iwerddon yn benodol i gynnwys hawliau yn ychwanegol at y CEHD, yn hytrach na Mesur Hawliau Prydain y bwriedir iddo ddisodli'r CEHD. Mae'n debyg nad oes llawer o ystyriaeth wedi'i rhoi hyd yma yn y cynigion hyn i effaith diddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol ar y setliad heddwch yng Ngogledd Iwerddon. Rydym yn cynghori y gallai symud ymlaen gyda'r cynigion hyn i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol heb gynigion cliriach, penodol ar gyfer camau gweithredu i anrhydeddu'r ymrwymiadau yng Nghytundeb Belfast (Dydd Gwener y Groglith) a Phrotocol Gogledd Iwerddon i'r Cytundeb Ymadael gael effaith fawr ar sefydlogrwydd y sefydliadau gwleidyddol, a'r heddwch bregus yng Ngogledd Iwerddon.

Yr Alban

Mae Deddf yr Alban 1998 yn rhoi'r CEHD wrth wraidd datganoli. Mae pwerau Senedd yr Alban a Llywodraeth yr Alban wedi'u cyfyngu gan y gofyniad i weithredu'n gyson â rhwymedigaethau'r CEHD. O dan Adran 29, mae deddfwriaeth sy'n anghydnaws â hawliau'r CEHD, a ddiffinnir drwy gyfeirio at y Ddeddf Hawliau Dynol, y tu allan i gymhwysedd Senedd yr Alban. Mae adran 57 yn amodi nad oes gan Weinidogion yr Alban unrhyw bŵer i weithredu'n anghydnaws â hawliau'r CEHD. Yn ôl Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban, "mae hawliau'r Confensiwn wedi dod yn rhan gref iawn o ffabrig cyfreithiau neu ddadansoddiad barnwrol yr Alban ac, yn hollbwysig, cymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban" oherwydd ymgorffori'r Ddeddf Hawliau Dynol o fewn Deddf yr Alban.[12]

Mae hawliau'r CEHD wedi arwain a dylanwadu ar agweddau pwysig ar gyfraith yr Alban. Er enghraifft, rhoddwyd mwy o bwyslais ar gyfranogiad rhieni ym mhrosesau perthnasol

[11] Dogfen ymgynghori t14
[12] Judith Robertson, Tystiolaeth lafar i'r Cydbwyllgor Hawliau Dynol, Adolygiad Annibynnol y Llywodraeth o'r Ddeddf Hawliau Dynol, HC 1161, 10 Mawrth 2021. Ar gael yma: https://committees.parliament.uk/oralevidence/1871/html/

Deddf Plant (yr Alban) 1995 drwy ystyriaethau'r llysoedd o Erthygl 8 y CEHD.[13] Yn ogystal, un o ganlyniadau'r ddyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus o dan Adran 6 fu datblygu'n raddol ddull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol ledled yr Alban.[14] Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol hefyd wedi cael effaith sylweddol ar ddefnyddio iaith a chyfreitheg o fath Strasbourg yng nghyfraith yr Alban.

Nid yw hyn yn fwy amlwg yn unman nag yn y System Gwrandawiadau Plant, lle mae'r Ddeddf Hawliau Dynol wedi chwarae rhan hanfodol wrth helpu i ymgorffori amddiffyniadau hawliau'r CEHD. Mae'n parhau i lywio datblygiad arfer da, yn enwedig o ran symud y system o fod yn fodel sy'n seiliedig ar les yn unig i un lle mae plant yn cael eu cydnabod a'u parchu fel deiliaid hawliau.

Er enghraifft, yn 2001[15] canfu Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn fod y Rheolau Gwrandawiadau Plant (fel yr oeddent bryd hynny) yn torri hawl plant i wrandawiad teg, fel y'i diogelir gan Erthygl 6 y CEHD. Roedd hyn oherwydd nad oedd cynrychiolaeth gyfreithiol wedi'i hariannu ar gael ar y pryd mewn dwy sefyllfa: lle mae anfon plentyn i lety diogel yn cael ei ystyried yn weithredol, a lle na fyddai plentyn, heb gynrychiolaeth gyfreithiol, yn gallu cymryd rhan yn effeithiol yn y gwrandawiad. Yn 2009, canfu'r Tŷ Mewnol hefyd fod y methiant i ddarparu cynrychiolaeth gyfreithiol a ariennir gan y wladwriaeth ar gyfer 'personau perthnasol', sef tad di-briod yn yr achos hwn, yn gyfystyr â "diffyg systemig mewnol yn y cynllun cymorth cyfreithiol fel yr oedd yn berthnasol i'r system gwrandawiadau plant".[16] Yn rhannol o ganlyniad i'r gyfres hon o achosion, derbyniodd Senedd yr Alban Ddeddf Gwrandawiadau Plant (yr Alban) 2011, sydd ymhlith diwygiadau eraill yn nodi amgylchiadau lle mae cymorth cyfreithiol i blant ar gael yn awtomatig.

Yn fwy diweddar yn 2020,[17] ymdriniodd Goruchaf Lys y DU â her yn erbyn cydnawsedd y system Gwrandawiadau Plant â hawliau brodyr a chwiorydd o ran Erthygl 8 y CEHD. Dyfarnodd y Goruchaf Lys, yn dilyn newidiadau a wnaed i'r system Gwrandawiadau Plant ers i'r achos ddechrau, ei fod bellach yn cydymffurfio ag egwyddorion yr hawl i fywyd teuluol o dan Erthygl 8 y CEHD mewn perthynas â brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu. Fodd bynnag, wrth gydnabod dilysrwydd yr her i weithrediad y system, tynnodd y llys sylw at y ffaith:

> "[...] mae cychwyn yr heriau hyn wedi datgelu bwlch yn y system gwrandawiadau plant y bu'n rhaid ei haddasu i fodloni gofynion erthygl 8 mewn perthynas â brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu. Erbyn hyn, cydnabyddir yn glir fuddiant y plentyn a'r brawd neu chwaer o ran cynnal perthynas â brodyr a chwiorydd drwy gyswllt (neu drwy leoliad os yw'r ddau yn destun Gorchymyn

---

[13] Gweler, C v Prif Ohebydd, 2010 Fam. L.R. 14 pan oedd plentyn yn destun gofyniad goruchwylio o dan yr amod bod cyswllt â'r fam yn ôl disgresiwn y plentyn, heb fod hynny'n torri erthygl 8 ychwaith, o ystyried hawliau helaeth y ddeddf i adolygu ac apelio

[14] Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban, *Inquiry: 20 Years of the Human Rights Act 1998*, Medi 2018. Ar gael yma: https://www.scottishhumanrights.com/media/1796/shrc-submission-to-the-jchr-on-hra-1998-13-september-2018.pdf

[15] S v Miller 2001 SLT 531. Gweler yr erthygl gan Kenneth Norrie, *Hearing and Speaking*, 18 Ionawr 2010. Ar gael yma: https://www.lawscot.org.uk/members/journal/issues/vol-55-issue-01/hearing-and-speaking/

[16] K v Gohebydd Awdurdod 2009 SLT 1019

[17] ABC (Apelydd) v Prif Ohebydd ac un arall (Ymatebwyr) (yr Alban), [2020] UKSC 26

> Diogelwch Plant) yn y rhan fwyaf o achosion [...] Yn fyr, mae angen cynnal ymchwiliad pwrpasol am berthynas y plentyn â'i frodyr a'i chwiorydd pan fydd gwrandawiad y plant yn mynd i'r afael â'r posibilrwydd o wneud Gorchymyn Diogelwch Plant"[18]

Yn dilyn y dyfarniad, derbyniodd Senedd yr Alban Ddeddf Plant (yr Alban) 2020, sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer categori newydd o hawliau cyfranogi ar gyfer brodyr a chwiorydd (ac aelodau eraill o'r teulu o bosibl yn y dyfodol), fel y gallant gymryd rhan mewn gwrandawiad plant pan nad ydynt yn berson perthnasol (gweler adran 25 o Ddeddf 2020).[19]

Er bod cynigion y Llywodraeth ar hyn o bryd yn amwys, rydym yn pryderu y bydd rhai o'r cynigion (yn enwedig mewn perthynas â chydbwyso hawliau o dan Erthyglau 8-11 y CEHD) yn cael effaith negyddol ar y ffordd y dehonglir hawliau plant yn yr Alban. Nid yw'n glir ychwaith sut y bydd y cynigion i wanhau pŵer y llysoedd i ddehongli deddfwriaeth yn gyson â hawliau'r CEHD ac i ddileu'r pŵer i ddileu is-ddeddfwriaeth sy'n cam-drin hawliau yn gweithio'n weithdrefnol yn yr Alban, lle mae gan lysoedd bwerau penodol ar hyn o bryd o dan Ddeddf yr Alban a'r Ddeddf Hawliau Dynol i sicrhau bod deddfwriaeth ddatganoledig yn cynnal hawliau'r CEHD.[20]

Mae'r cynigion hefyd yn groes i agenda Llywodraeth yr Alban ar gyfer datblygu hawliau dynol. Yn dilyn argymhellion Grŵp Cynghori'r Prif Weinidog ar Arweinyddiaeth Hawliau Dynol (FMAG), mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i gyflwyno Bil a fydd yn 'darparu hawliau pellach o gytundebau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig a gadarnhawyd gan y DU ond nad ydynt wedi'u hymgorffori eto, gan gynnwys hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, yn ogystal â hawliau amgylcheddol'.[21] Fel y soniwyd uchod, bydd Bil CCUHP (Corffori) (yr Alban), pan ddaw i rym, yn ei gwneud yn anghyfreithlon i awdurdodau cyhoeddus weithredu'n anghydnaws â gofynion corfforedig CCUHP, gan roi'r pŵer i blant, pobl ifanc a'u cynrychiolwyr fynd i'r llys i orfodi eu hawliau.

Rydym yn pryderu y bydd hyn yn creu system ddwy haen yn yr Alban lle bydd hawliau'r CEHD yn destun mecanweithiau gorfodi gwannach na hawliau CCUHP.

---

[18] Para 52

[19] *Stand Up for Siblings, Meeting siblings' rights to participate in Children's Hearings,* 9 Tachwedd 2020. Ar gael yma: https://www.standupforsiblings.co.uk/2020/11/09/meetings-siblings-rights-to-participate-in-childrens-hearings/#:~:text=The%20new%20Children%20(Scotland)%20Act,section%2025%20of%20the%20Act).

[20] Amnesty International UK, *A guide on the Consultation on Human Rights Act Reform.* Ar gael yn: https://www.amnesty.org.uk/files/2022-02/HRA%20Consultation%20FINAL.pdf?VersionId=mRkIDIRm2sPbNw2o0iDFLIEZ_F3FoZ6c

[21] Gweler Grŵp Cynghori'r Prif Weinidog ar Arweinyddiaeth Hawliau Dynol, Argymhellion ar gyfer fframwaith hawliau dynol newydd i wella bywydau pobl, Adroddiad i'r Prif Weinidog, 'FMAG Report' (Rhagfyr 2018). Ar gael yn http://humanrightsleadership.scot/wp-content/uploads/2018/12/First-Ministers-Advisory-Group-post-10th-December-update.pdf

Rydym yn cydnabod nad oes consensws clir ynghylch i ba raddau y mae hawliau dynol yn fater datganoledig.[22] Mae paragraff 7(2) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Alban yn ei gwneud yn glir bod arsylwi a gweithredu hawliau dynol wedi'u heithrio rhag cymalau cadw, a derbynnir yn gyffredinol fod arsylwi a gweithredu'r CEHD yn fater sydd wedi'i ddatganoli'n benodol.[23] Nodwn nad yw'r ddogfen ymgynghori'n mynd i'r afael â pha sgyrsiau, os o gwbl, sydd eisoes wedi'u cael gyda Llywodraeth yr Alban ar ddiwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol. Nid ofynnir ychwaith a fydd cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei geisio.

<u>Safbwyntiau Llywodraethau Cymru a'r Alban</u>

Mae'n amlwg o'u datganiad ar y cyd a gyhoeddwyd ar 2 Mawrth 2022 fod Llywodraethau Cymru a'r Alban yn gryf wrthwynebu'r cynigion hyn yn eu cyfanrwydd.[24]

Maent yn feirniadol o Lywodraeth y DU am beidio â gwrando ar dystiolaeth gan gymdeithas sifil a'r proffesiwn cyfreithiol a bwrw ymlaen â'r cynigion hyn pan ganfu'r Adolygiad Annibynnol o Hawliau Dynol "ddim achos da dros wneud newidiadau sylweddol".

A ninnau'n Gomisiynwyr Plant Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, rydym yn cytuno â "phryderon difrifol a dwfn" Llywodraeth Cymru a'r Alban "mewn perthynas â'r cynigion presennol a chyfeiriad teithio tymor hwy Llywodraeth y DU".

Rydym hefyd yn cytuno â'r datganiad canlynol bod "y cynigion ar gyfer 'Bil Hawliau modern' yn ddigroeso ac yn ddiangen. Rydym yn glir mai'r ffordd orau o ddiogelu buddiannau pobl yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yw drwy gadw'r Ddeddf Hawliau Dynol ar ei ffurf bresennol.

**Adran 2: y berthynas rhwng llysoedd domestig a Llys Hawliau Dynol Ewrop**

Mae'r cynigion i ddiwygio Adran 2 o'r Ddeddf Hawliau Dynol ac i fynnu mai Goruchaf Lys y DU yw'r 'canolwr barnwrol yn y pen draw' o ran gweithredu hawliau dynol yn y DU yn peryglu gwanhau ein hymrwymiad i gyfraith ryngwladol. Fel un o sylfaenwyr Cyngor Ewrop, bydd hefyd yn cael effaith negyddol ar y parch cyfunol at hawliau'r CEHD a'u gorfodi gan aelod-wladwriaethau Cyngor Ewrop. Cytunwn â'r Arglwydd Carnwarth fod y cynigion yn gwbl groes i nod datganedig y Bil Hawliau i "barhau i barchu rhwymedigaethau rhyngwladol y DU fel rhan o'r Confensiwn".[25]

Beth bynnag, credwn fod y rhesymeg sy'n sail i'r cynigion, sef bod Adran 2 yn arwain at ansicrwydd cyfreithiol ac yn hyrwyddo gorddibyniaeth ar gyfraith achosion Strasbourg, yn

[22] Adroddiad JCHR, 8 Gorffennaf 2021, para 254. Ar gael yn: https://publications.parliament.uk/pa/jt5802/jtselect/jtrights/89/8913.htm#footnote-029. Gweler hefyd Adroddiad Datganoli a Hawliau Dynol, JUSTICE, https://justice.org.uk/devolution-human-rights-2/ B

[23] Human Rights and Devolution: The Independent Review of the Human Rights Act: Implications for Scotland. *A briefing paper for the Civil Society Brexit Project*, gan yr Athro Nicole Busby. Ar gael yn: https://hrcscotland.org/wp-content/uploads/2021/02/Final-IRHRA-Nicole-Busby-January-2021.pdf

[24] https://gov.wales/devolved-nations-criticise-unwelcome-and-unnecessary-uk-government-plans-drop-human-rights-act

[25] Yr Arglwydd Carnwath, Darlith ar ddiwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol – *is it time for a new British Bill of Rights?* Trawsgrifiad o'r ddarlith ar gael yn: https://constitutionallawmatters.org/2022/02/lord-carnwath-lecture-on-human-rights-act-reform-is-it-time-for-a-new-british-bill-of-rights/

camliwio'r berthynas rhwng Goruchaf Lys y DU a'r CEHD. Yn hyn o beth, rydym yn tynnu sylw at dystiolaeth y Farwnes Hale o Richmond[26] (cyn-Lywydd y Goruchaf Lys) a'r Barnwr Eicke a'r Barnwr Spano[27] (barnwyr presennol Llys Hawliau Dynol Ewrop) i'r Cydbwyllgor Hawliau Dynol. Mae eu tystiolaeth yn dangos bod deialog farnwrol anffurfiol a ffurfiol rhwng y ddau lys yn gweithio'n dda. Yn benodol, mae gweithredu Adran 2 yn amlwg yn caniatáu ar gyfer cyflwr iach iawn o ddeialog farnwrol ar ffurf dyfarniadau.

Rydym yn pryderu bod y cynigion yn peryglu ansefydlogi'r berthynas rhwng y Goruchaf Lys a Llys Hawliau Dynol Ewrop.

**Corffori cyrff Cytuniad**

Oherwydd diffyg corffori CCUHP yn llawn mewn cyfraith ddomestig yn y DU, mae'n arferol i hawliadau hawliau plant gael eu dwyn o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Roedd y Ddeddf Hawliau Dynol yn corffori'n uniongyrchol y rhan fwyaf o'r hawliau a'r rhyddid yn yr CEHD, gan ganiatáu i ddinasyddion y DU, gan gynnwys plant a theuluoedd, geisio diogelu eu hawliau drwy lysoedd domestig, a hefyd cadw'r gallu i fynd i Lys Hawliau Dynol Ewrop wedi hynny os bydd rhwymedïau domestig yn methu.

Fodd bynnag, nid yw'r CEHD yn offeryn rhyngwladol sy'n benodol i blant. Felly, mae'n gyffredin cyfeirio at hawliau CCUHP yn nhrafodion y Ddeddf Hawliau Dynol. Gall hawliad o dan y Ddeddf Hawliau Dynol fod yn 'borth' i gyflwyno materion hawliau plant penodol.

Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi cyfeirio dro ar ôl tro at CCUHP yn ei benderfyniadau a'i ddyfarniadau. Mae wedi defnyddio CCUHP i ddehongli hawliau plant mewn nifer o achosion. [28] Mae Adran 2 o'r Ddeddf Hawliau Dynol yn gosod dyletswydd ar lysoedd y DU i ystyried cyfreitheg Llys Hawliau Dynol Ewrop, a dyma un o'r prif resymau pam y dylid cadw'r ddarpariaeth hon.

Rydym wedi nodi isod nifer o achosion lle mae llysoedd cenedlaethol wedi dibynnu ar CCUHP mewn achosion a gyflwynwyd o dan y Ddeddf Hawliau Dynol.

<u>Astudiaethau achos</u>

Yn R (Williamson) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg[29], cyfeiriodd y Farwnes Hale at sylwadau gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn yr achos hwnnw, heriodd athrawon a rhieni o bedair ysgol Gristnogol annibynnol y gwaharddiad cyfreithiol ar gosb gorfforol mewn ysgolion am fod yn anghydnaws â'u hawliau <u>hwy</u> o dan y CEHD, yn benodol eu hawl i amlygu eu crefydd a sicrheir o dan Erthygl 9 y CEHD a'u hawl i gael eu plant wedi'u haddysgu yn unol â'u hargyhoeddiadau athronyddol o dan Erthygl 2 o'r Protocol Cyntaf. Methodd eu cais yn yr Uchel Lys, y Llys Apêl ac yn Nhŷ'r Arglwyddi.

---

[26] Y Farwnes Hale o Richmond, tystiolaeth lafar i'r Cydbwyllgor Hawliau Dynol ar Adolygiad Annibynnol y Llywodraeth o'r Ddeddf Hawliau Dynol. Ar gael yn: https://committees.parliament.uk/oralevidence/1661/html/

[27] Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Barnwr Robert Spano, Llywydd Llys Hawliau Dynol Ewrop a'r Barnwr Tim Eicke (HRA0011). Ar gael yn: https://committees.parliament.uk/writtenevidence/22906/html/

[28] Gweler ymhlith llawer o enghreifftiau eraill, Strand Lobben ac eraill v. Norwy, cais [CBM] rhif 37283/13

[29] R (ar gais Williamson ac eraill) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth ac eraill [2005] UKHL 15 [84]

Cyfeiriodd y Farwnes Hale at bryderon ac argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn ymwneud â methiant y DU i amddiffyn plant rhag pob cosb gorfforol mewn lleoliadau addysg, yn dilyn ei adolygiad cyntaf o'r DU ym 1995. Yn dilyn yr ail adolygiad, yn 2002, croesawodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ddiddymu cosb gorfforol ym mhob ysgol, a nodwyd gan y Farwnes Hale.

Mae achos ZH (Tanzania)[30] yn amlygu'r ffordd y mae'r gofyniad i roi ystyriaeth sylfaenol i les pennaf y plentyn o dan CCUHP wedi'i ddatblygu'n llwyddiannus mewn achos. Y mater canolog yn yr achos hwn oedd lles pennaf plant lle penderfynwyd alltudio rhiant. Roedd yr achos yn ymwneud ag alltudio mam i ddau o blant o'r DU i Tanzania. Cafodd y plant ill dau eu geni yn y DU ac nid oeddent yn destun achos mewnfudo. Byddai alltudio eu mam yn golygu'n anochel y byddai'r plant hefyd yn cael eu gorfodi i adael y DU gyda hi. Ystyriodd y llys hefyd beth fyddai'n digwydd pe bai'n rhaid i'r plant aros yn y DU gyda'u tad.

Roedd y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo a'r Llys Apêl ill dau wedi cynnal y gellid disgwyl yn rhesymol i'r plant ddilyn eu mam i Tanzania. Roedd tad y plant wedi cael diagnosis o HIV; roedd yn byw ar lwfans anabledd; yn byw gyda'i rieni a'i bartner newydd; a dywedwyd ei fod yn yfed llawer iawn o alcohol. Er gwaethaf y ffeithiau hyn, teimlai'r Tribiwnlys na fyddai unrhyw anawsterau ymarferol o reidrwydd pe bai'r plant yn byw gyda'u tad, neu'n wir i'r tad ymweld â'r plant yn Tanzania. Dywedodd y Llys Apêl fod canfyddiad y Tribiwnlys y gallai'r plant fyw gyda'u tad yn agored i feirniadaeth fel un heb sail resymegol, ond serch hynny cadarnhaodd benderfyniad y Tribiwnlys y gellid disgwyl yn rhesymol i'r plant ddilyn eu mam i Tanzania.

Roedd y penderfyniad gerbron y Goruchaf Lys ar apêl gan y Llys Apêl yn ystyried a fyddai alltudio'r fam yn torri'r hawl i barch at fywyd teuluol y ddau riant a'r ddau blentyn o dan Erthygl 8 y CEHD ac, os felly, a allai'r awdurdodau mewnfudo gyfiawnhau hyn yn briodol.

Mae'r dyfarniad yn cynnwys ystyriaeth hir o ddarpariaethau hawliau dynol rhyngwladol ac yn benodol CCUHP, gan nodi bod y rhwymedigaeth genedlaethol a rhyngwladol fwyaf perthnasol wedi'i chynnwys yn Erthygl 3(1) CCUHP yn yr achos hwn. Fel yr eglurodd y Farwnes Hale:

> "Mae hyn yn rhwymedigaeth rwymol mewn cyfraith ryngwladol, ac mae'r ysbryd, os nad yr union iaith, hefyd wedi'i drosi i'n cyfraith genedlaethol. Mae Adran 11 o Ddeddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ... i gyflawni eu swyddogaethau gan roi sylw i'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Cafodd yr awdurdodau mewnfudo eu hesgusodi ar y dechrau o'r ddyletswydd hon, oherwydd bod y Deyrnas Unedig wedi mynd i gymal cadw cyffredinol i CCUHP ynghylch materion mewnfudo. Ond codwyd y cymal cadw hwnnw yn 2008 ac, o ganlyniad, mae adran 55 o Ddeddf Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo 2009 bellach yn darparu, mewn perthynas â mewnfudo, lloches neu genedligrwydd ymhlith pethau eraill, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud trefniadau i sicrhau bod y swyddogaethau hynny'n cael eu cyflawni gan roi sylw i'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sydd yn y Deyrnas Unedig. "

[30] ZH (Tanzania) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref [2011] UKSC 4

Dywedodd y Farwnes Hale ymhellach fod cyfreitheg Llys Hawliau Dynol Ewrop yn ei gwneud yn glir y bydd y Llys yn disgwyl i awdurdodau cenedlaethol gymhwyso Erthygl 3(1) o CCUHP a thrin lles pennaf y plentyn fel prif ystyriaeth.

Ystyriodd y Goruchaf Lys nifer o ffactorau, gan gynnwys addysg y plant yn y DU, eu cysylltiadau cymdeithasol a'u perthynas gadarnhaol â'u tad. Roedd hefyd yn ystyried dinasyddiaeth y plant ac yn y cyd-destun hwnnw cyfeiriwyd at CCUHP (Erthyglau 7 ac 8). Daeth y llys i'r casgliad, wrth wneud asesiad cymesuredd o dan Erthygl 8 y CEHD, fod yn rhaid i les pennaf y plentyn fod yn brif ystyriaeth, gan olygu bod yn rhaid ei ystyried yn gyntaf, er efallai bod cryfder ystyriaethau eraill yn drech na lles pennaf y plentyn.

Roedd yn hanfodol y gellid dod â'r hawliad o dan hawliau'r CEHD, gan ganiatáu i hawliau CCUHP gael eu darllen hefyd o fewn ystyriaethau'r llys. Yn ogystal, yn yr achos hwn, roedd y fam wedi gwneud tri chais aflwyddiannus am loches, un yn ei hunaniaeth ei hun a dau mewn hunaniaeth ffug. Efallai fod ymddygiad y fam yn yr achos hwn wedi atal hawliad rhag cael ei ddwyn ar ran y plant a oedd yn ddinasyddion Prydeinig ac nad oeddent wedi gwneud dim i haeddu cwtogi ar eu hawliau, yn unol â chynigion yr ymgynghoriad hwn. Mae'n bosibl bod hawliad wedi'i atal rhag cael ei ddwyn ar sail ymddygiad a "chyfrifoldebau" y fam; mae'n hanfodol nodi sut y byddai hyn wedi cael effaith sylweddol a niweidiol ar y plant ac efallai ei fod wedi atal yr ateb a roddwyd a/neu hyd yn oed atal yr achos rhag cael ei ddwyn yn y lle cyntaf.

Roedd Murray v Express Newspapers ccc ac un arall[31] yn ymwneud â hawliad Erthygl 8 y CEHD a ddygwyd gan yr awdur J. K. Rowling yn erbyn y diffynyddion, a oedd wedi cyhoeddi ffotograff o'i mab 19 mis oed. Dadleuwyd ar ran y plentyn fod ganddo hawl i breifatrwydd o dan Erthygl 8 y CEHD. Ystyriodd y Llys Apêl Erthygl 16 CCUHP yn ei drafodaethau, a'i bwyslais ar yr angen i amddiffyn y plentyn rhag ymyrraeth anghyfreithlon â phreifatrwydd, teulu neu gartref. Wrth ddyfarnu y gall hawl plentyn i barch at ei fywyd preifat o dan Erthygl 8 y CEHD, mewn rhai achosion, orbwyso hawl cyhoeddwr i ryddid mynegiant o dan Erthygl 10 y CEHD, dywedodd y llys:

> "... Yn ein barn ni, gellid dadlau o leiaf fod gan [enw'r plentyn] ddisgwyliad rhesymol o breifatrwydd. Mae'r ffaith ei fod yn blentyn yn ein barn ni o fwy o arwyddocâd nag yr oedd y barnwr yn ei feddwl. Mae'r llysoedd wedi cydnabod pwysigrwydd hawliau plant mewn llawer o gyd-destunau gwahanol ac felly hefyd y gymuned ryngwladol ... a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, y mae'r Deyrnas Unedig yn barti iddo."

Mae'r achos hwn yn dangos sut mae plant yn dibynnu ar eraill i ddiogelu eu hawliau pan fyddant yn rhy ifanc i wneud hyn eu hunain; mae'n bwysig felly bod y gallu i fynd ar drywydd hawliadau ar ran plant dibynnol yn cael ei gadw. Gellid bod wedi gweld bod gweithredoedd y rhieni yn hepgor unrhyw hawliau preifatrwydd oherwydd sefyllfa'r fam o enwogrwydd a bri rhyngwladol, ond rhaid trin hyn ar wahân i hawliau'r plentyn ei hun.

Yn yr achos yng Ngogledd Iwerddon *King v Sunday Newspapers Ltd* 2011 NICA 8, cyhoeddodd y Sunday World gyfres o erthyglau am yr Ymgeisydd, gan ei gyhuddo o gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol difrifol yn rhan o grŵp paramilwrol

[31] Murray v Express Newspapers ccc ac un arall [2008] EWCA Civ 446

Teyrngarwyr. Cyhoeddodd y papur fanylion cyfeiriad yr Ymgeisydd, ffotograff ohono gyda'i bartner, y ffaith bod ei bartner yn Gatholig a bod bedydd eu plentyn yn Gatholig. Roedd yr erthyglau hefyd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am bartner yr Ymgeisydd a'i theulu. Cyhoeddwyd yr wybodaeth mewn ffordd a oedd yn caniatáu i'r plentyn gael ei adnabod gan mai plentyn yr Ymgeisydd a'i bartner a enwyd ydoedd.

Ystyriwyd erthyglau 8 a 10 gan y llys yng nghyd-destun camwedd camddefnyddio gwybodaeth breifat a / neu weithred dros dorri preifatrwydd. Roedd y llys yn cydbwyso'r hawliau o dan Erthygl 8 ac Erthygl 10 a chanfu fod preifatrwydd y plentyn wedi'i dorri'n ddigyfiawnhad.

Mae'r hawl i ryddid mynegiant wedi'i nodi'n benodol ac yn cael ei diogelu'n ychwanegol yn y Ddeddf Hawliau Dynol. Mae unrhyw amddiffyniad pellach fel y nodir yng nghynigion y llywodraeth yn debygol o leihau'r hawl i breifatrwydd a'r gallu i gael iawn am dorri'r hawl i breifatrwydd, gan gynnwys hawliau i breifatrwydd plant. Felly, mae hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar hawliau plant.

Fodd bynnag, bu’n anodd i hawliadau hawliau plant penodol fod yn llwyddiannus oherwydd diffyg corffori'r CCUHP yn llawn.

Yn achos SC, CB ac 8 o blant, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau[32] gwrthododd y Goruchaf Lys her yn erbyn y terfyn dau blentyn ar elfen unigol taliadau credyd treth plant. Mewn dyfarniad unfrydol, dywedodd y Llys nad oedd y ddarpariaeth sy'n gosod y terfyn yn groes i hawliau CEHD yr apelyddion.

Canfu'r Llys y gallai'r rheol wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn menywod, yn ogystal â phlant sy'n byw ar aelwydydd â mwy na dau o blant. Fodd bynnag, gellid cyfiawnhau unrhyw wahaniaethu o'r fath yn ddilys ac ystyriwyd ei fod yn gymesur ar sail 'diogelu lles economaidd y wlad'.

Dadleuon canolog yr apelyddion oedd bod y terfyn dau blentyn yn groes i'r hawl i fywyd teuluol o dan Erthygl 8 y CEHD a ddarllenwyd ar y cyd â'r gwaharddiad ar wahaniaethu o dan Erthygl 14.

Ni ddarbwyllwyd y Llys fel arall gan honiad yr apelyddion bod y terfyn yn groes i Erthygl 8.

Er mwyn hyrwyddo hawliad o wahaniaethu o dan y CEHD yn llwyddiannus, mae angen gwneud hyn o fewn 'cwmpas' hawl arall. Er mwyn canfod gwahaniaethu, rhaid dangos bod gwahaniaeth mewn triniaeth ar sail nodwedd berthnasol. Derbyniodd y Llys ddadleuon yr apelyddion fod yr achos yn dod o dan gwmpas naill ai Erthygl 8 neu, fel arall, yr hawl i eiddo o dan Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r Confensiwn.

Derbyniodd y Llys y gallai'r ddarpariaeth wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn menywod o’u cymharu â dynion, o ystyried mai menywod oedd 90% o rieni sengl yn magu plant. Derbyniodd y Llys hefyd y gallai'r ddarpariaeth wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn plant sy'n byw ar aelwydydd â mwy na dau o blant, a oedd o dan anfantais o gymharu â'r rhai â dau neu lai. Fodd bynnag, roedd yn bosibl cyfiawnhau'r mesur.

---

[32] SC, CB ac 8 o blant, R. (ar gais) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ac Ors [2021] UKSC 26

Dadleuodd yr apelyddion fod y terfyn dau blentyn yn torri CCUHP. Pwysleisiodd yr Arglwydd Reed fod y DU yn ddeuolydd yn hytrach na monydd o wladwriaeth, sy'n golygu: "un o egwyddorion sylfaenol ein cyfraith gyfansoddiadol yw nad yw cytundeb anghorfforedig yn rhan o gyfraith y Deyrnas Unedig".

Beirniadodd rai sylwadau achos blaenorol a oedd fel petaent yn awgrymu'r gwrthwyneb. Cyfeiriodd at y pwys yr oedd llawer o'r dyfarniadau hyn wedi'i roi ar asesu a oedd CCUHP wedi'i dorri, megis yn Mathieson a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau,[33] lle dywedwyd nad oedd y ddeddfwriaeth ddirprwyedig berthnasol yn cydymffurfio â CCUHP.

Roedd yr Arglwydd Reed o'r farn y gallai ystyried a oedd y terfyn dau blentyn yn parchu lles pennaf y plentyn fod yn ffactor perthnasol wrth asesu a oedd cyfiawnhad dros y gwahaniaethu.

Fodd bynnag, daeth y Llys i'r casgliad bod y terfyn dau blentyn wedi'i gyfiawnhau ar sail polisi economaidd a lleihau gwariant cyhoeddus. Canfu'r Llys hefyd y gellid cyfiawnhau yn yr un modd yr effaith wahaniaethol ar blant sy'n byw ar aelwydydd â mwy na dau o blant, hyd yn oed wrth ystyried lles pennaf y plant dan sylw.

Mae'r terfyn dau blentyn yn parhau i fod yn un o'r achosion mwyaf arwyddocaol o dorri hawliau plant o dan CCUHP ar lyfr statud y DU ar hyn o bryd. Mae gan blant hawl i gael triniaeth gyfartal waeth beth fo cefndir neu statws eu rhieni yn unol ag Erthygl 2 CCUHP ond mae sefyllfa Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn groes i CCUHP a'n barn yn hyn o beth. Rydym wedi ysgrifennu ar y cyd at yr Ysgrifennydd Gwladol[34] ar y mater hwn ddwywaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ond, er gwaethaf ein ceisiadau i gyfarfod i drafod hyn ymhellach, nid ydym wedi llwyddo i sicrhau cyfarfod o'r fath.

Mae'n werth nodi, yn yr achos hwn, fod beirniadaeth o gyfraniad sefydliadau ymgyrchu at helpu i ddod ag achosion fel hyn megis ymgais i gael dau gynnig arni, gan y byddant wedi cael cyfle i lobïo yn erbyn deddfwriaeth yn ystod cyfnod y Bil. Er bod yr achos hwn yn cyd-fynd â'r cynigion wrth law i ddiogelu sofraniaeth y Senedd, nid yw hyn yn gwneud dim i ddiogelu a hyrwyddo cymorth y mae mawr ei angen ar gyfer hawliau dynol plant, yn unol â rhwymedigaethau'r blaid wladol o dan, er enghraifft, CCUHP Erthygl 4. Bydd y cynigion i gyfyngu ar hawliadau'r Ddeddf Hawliau Dynol a chymhwyso hawliau a mynediad at gyfiawnder ymhellach yn cael effaith andwyol ar hawliau plant (gweler ymhellach isod).

### Adran 6 ac awdurdodau cyhoeddus

Rydym o'r farn y dylid cynnal y diffiniad presennol o awdurdodau cyhoeddus yn Adran 6. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bu'r diffiniad yn broblemus o ran y ffordd y mae swyddogaethau o natur gyhoeddus wedi'u dehongli gan y llysoedd (yn fwyaf nodedig yn achos YL v. Cyngor Dinas Birmingham[35] ac Ali (Irac) v. Serco Ltd[36]). Er mwyn bod yn glir,

---

[33] Mathieson v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau [2015] UKSC 47

[34] Comisiynwyr Plant yn y gwledydd datganoledig yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i roi'r gorau i amddifadu plant o'u hawl i gael safon byw sy'n ddigonol - Comisiynydd Plant Cymru (complantcymru.org.uk) hwn yw'r llythyr cyntaf a gyhoeddwyd fel llythyr agored. Nid yw'r ail lythyr o fis Medi 2021 wedi'i gyhoeddi, nac ychwaith yr ymateb cyntaf gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Ni chafwyd ymateb i'r ail lythyr.

[35] [2007] UKHL 27

[36] [2019] CSIH 54

rhaid diogelu hawliau plant hyd yn oed pan fydd gwasanaethau'n cael eu contractio allan i sefydliadau yn y sector preifat neu'r trydydd sector.

Os bydd diffiniad rhy gul yn trechu, rydym yn pryderu efallai na fydd yn ofynnol i gyrff preifat sy'n ymrwymo i gontractau i ddarparu gwasanaethau i blant, megis tai, llety preswyl, gwasanaethau mewnfudo, cymorth addysg, darparu bwyd/prydau ysgol, gwasanaethau iechyd, darparu gwasanaethau gofal/mabwysiadu neu faethu, gwasanaethau sy'n gysylltiedig â nawdd cymdeithasol, ymhlith enghreifftiau eraill, gydymffurfio â hawliau'r CEHD. Mae hyn yn brin o ofynion cyfraith hawliau dynol rhyngwladol.

Mewn perthynas â'r CCUHP, mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi pwysleisio nad yw gwladwriaethau wedi'u heithrio o'u rhwymedigaethau o dan y CHP pan fyddant yn cael gwasanaethau ar gontract allanol neu'n preifateiddio gwasanaethau sy'n effeithio ar gyflawni hawliau plant.[37]

Er bod CCUHP yn cael ei gorffori'n rhannol yng Nghymru, drwy ddyletswydd sylw dyledus ar Weinidogion Cymru, nid yw hyn yn caniatáu i unigolion gyflwyno her yn erbyn awdurdod cyhoeddus. Mae'n werth nodi bod y cynigion yn ceisio symud yn ymwybodol oddi wrth alluoedd dinasyddion i wneud hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus, ond dyma'r brif ffordd y mae'r rhan fwyaf o bobl yn rhyngweithio â'r 'Wladwriaeth'. Dylai'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol gymhwyso canllawiau a deddfwriaeth genedlaethol yn gyfartal ac yn gyson, ond mae llawer mwy o arlliw ynghylch gwneud penderfyniadau y tu hwnt i'r hyn y bydd canllawiau yn galw amdano neu'n ei fandadu'n dechnegol, a dyma lle mae'r rhan fwyaf o faterion arfer gwael sy'n effeithio ar blant a theuluoedd yn debygol o ddigwydd. Nid lleiaf mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch ariannu (darpariaeth unigol neu gynnal lleoliadau a chyllid sefydliadau), darparu gwasanaeth gofal a chymorth, mynediad at ddarpariaeth addysg, yn enwedig i'r rhai ag anghenion ychwanegol, darpariaeth a chymorth tai a llawer mwy o feysydd.

Fel y nodwyd uchod, mae'r anallu i blant neu deuluoedd unigol ddod â hawliad yn erbyn awdurdod cyhoeddus am dorri eu hawliau o dan CCUHP yn golygu mai'r Ddeddf Hawliau Dynol yw'r unig ffordd sy'n agored i her ar sail hawliau dynol.

Mae paragraff 150 o'r cynigion yn nodi bod Llywodraeth y DU o'r farn egwyddorol y dylai penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau gael eu penderfynu gan wneuthurwyr cyfraith etholedig, a chan weithwyr gweithredol proffesiynol sy'n meddu ar y ffeithiau llawn, **sy'n atebol i'r cyhoedd**." [ychwanegwyd y pwyslais]. Fodd bynnag, mae hyn yn groes i weddill y cynigion sy'n ceisio atal hawliadau rhag cael eu gwneud yn erbyn awdurdodau cyhoeddus lle bynnag y bo modd, ar yr amod eu bod yn ceisio gweithredu yn unol ag ewyllys y Senedd. Ond yn aml iawn, dim ond pan fydd hawliad yn cael ei wneud a'i archwilio'n llawn i brofi hyn y gellir penderfynu hyn yn iawn. Byddai cydbwysedd y pŵer yn symud yn sylweddol os na ellid dod â hawliadau lle tybir bod yr awdurdodau cyhoeddus hynny'n 'gwneud eu gorau' ac felly y dylid caniatáu iddynt barhau â'u gweithredoedd heb eu gwirio. Nid yw hyn yn disgrifio system sy'n atebol i'r cyhoedd mewn unrhyw ffordd, yn enwedig plant nad oes ganddynt y gallu i bleidleisio mewn etholiadau. Yn yr un modd, nid yw etholiad bob ychydig flynyddoedd yn rhoi digon o

[37] Sylwadau Cyffredinol CCUHP Rhif 16 (2013)

fynediad at gyfiawnder i berson y mae ei hawliau wedi'u cwtogi neu eu torri gan benderfyniad neu weithredoedd/hepgoriadau awdurdod cyhoeddus.

Yn ogystal, mae geiriad y cynnig am awdurdodau cyhoeddus yn "rhoi effaith" i ddeddfwriaeth sylfaenol yn rhy eang i fod yn ymarferol fel diffiniad a byddai ei hun yn gwahodd nifer o hawliadau, gellid rhagweld, i allu rhoi unrhyw ystyr sylweddol i'r hyn y mae "rhoi effaith" yn ei olygu'n ymarferol.

Mae paragraff 192 o'r cynigion yn ceisio symud y dull o ddehongli hawliau'r Confensiwn drwy ddarparu bod yn rhaid i lysoedd domestig ystyried yn gyntaf a ellir datrys mater hawliau drwy gyfeirio at statud domestig penodol neu'r gyfraith gyffredin, cyn ystyried hawliau'r Confensiwn a chyfraith achosion Strasbourg. Yn ymarferol, byddai hyn yn diddymu iaith a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau yn y mwyafrif llethol o achosion gan nad yw'n ofynnol i Lywodraeth y DU weithredu'n gydnaws â'r Confensiwn wrth greu statudau domestig, ac felly byddai unrhyw anghydnawsedd yn cael ei adael heb ei herio a byddai'n cael parhau.

Roedd achos y Goruchaf Lys mewn perthynas â Bil yr Alban i gorffori CCUHP yn eu deddfwriaeth ddomestig yn ailddatgan bod Llywodraeth y DU yn ceisio parhau i ddeddfu heb gyfeirio at hawliau cytundebau a Chonfensiynau y maent hwy eu hunain wedi'u llofnodi a'u cadarnhau. Yn anffodus, mae'r cynigion hyn yn cadarnhau'r sefyllfa hon ymhellach, sy'n annerbyniol ac yn anghydnaws â sefyllfa parti gwladol sy'n contractio i'r offerynnau rhyngwladol hynny.

Byddai angen mwy o eglurder hefyd o'r cynigion hyn ynghylch pa statws a fyddai gan unrhyw Fil Hawliau newydd; fel 'statud domestig' sut y byddai hyn yn cyd-fynd â'r hierarchaeth ddeddfwriaeth arfaethedig at ddibenion dehongli hawliau'r Confensiwn?

### Mynediad at gyfiawnder

Nid ydym o'r farn bod y Llywodraeth wedi cyflwyno achos i gefnogi cyflwyno cam caniatâd.

Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn darparu unrhyw ystadegau (er enghraifft, nifer yr achosion hawliau dynol wedi'u dileu'n gynnar) i gefnogi'r honiad bod achosion 'dibwys ac annheilwng' yn cael eu dwyn gerbron llysoedd cenedlaethol mewn niferoedd mawr, gan lyncu amser llys ac adnoddau cyhoeddus.

Dywed y Llywodraeth fod hawliadau gwamal yn effeithio ar ymddiriedaeth yn y system ac yn dibrisio holl gysyniad hawliau dynol.[38] Mae'n anodd deall sut y byddai cyflwyno her hawliau dynol yn dibrisio cysyniad hawliau pan mai dyma'r unig ffordd, yn aml iawn, o geisio dehongli hawliau'n llawn mewn sefyllfa benodol. Ni ddylid ystyried bod achosion aflwyddiannus yn awtomatig yn dangos bod rhywbeth wedi mynd o'i le neu fod partïon wedi gweithredu'n amhriodol wrth ddwyn hawliadau. Bydd llawer o achosion yn cael eu penderfynu gan fwyafrif o feirniaid yn y llysoedd uwch ac nid oes angen penderfyniadau unfrydol arnynt; mae dyfarniadau sy'n anghydweld yn nodi'n glir iawn lle bu achosion yn seiliedig ar ddehongliadau cymhleth iawn a/neu lle mae'r cymhlethdod yn golygu bod hyd yn oed panel o feirniaid profiadol wedi'i chael yn anodd cytuno ar ddehongli cyfraith

---

[38] Ym mharagraff 219

neu ddarpariaeth sydd wedi'i drafftio'n amwys. Dim ond pan fydd deddfwriaeth yn cael ei chymhwyso i senarios bywyd go iawn y gellir profi gwir natur y cymalau a'r testun manwl yn briodol ac weithiau bydd angen troi at y llysoedd i helpu i ddehongli hyn. Dyma ddiben y system farnwrol a gwahanu pwerau, ac felly ni ddylid ei ystyried yn arwydd o deilyngdod neu fel arall yn yr hawliad sy'n cael ei ddwyn.

Beth bynnag, bydd angen i hawliwr sy'n dod ag adolygiad barnwrol (y math mwyaf cyffredin o hawliad hawliau dynol) yng Nghymru a Lloegr, neu yn yr Alban, wneud cais am ganiatâd ar gyfer adolygiad barnwrol. Er enghraifft, yn yr Alban ni all Llys y Sesiwn roi caniatâd i gais am adolygiad barnwrol fynd rhagddo heblaw ei fod yn fodlon... bod gan y cais obaith gwirioneddol o lwyddo.[39] Yn ôl cyfraith achosion, ni ddylid dehongli bod y rheol yn creu rhwystr anorchfygol a fyddai'n atal yr hyn a allai ymddangos yn achos gwan rhag cael ei ddadlau'n llawn maes o law.[40]

Bydd y cynnig i gyflwyno cam caniatâd yn gofyn am ddiwygiadau i reolau llysoedd yn yr Alban, sydd fel arfer yn fater datganoledig. Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn trafod a fydd unrhyw gydsyniad deddfwriaethol yn cael ei geisio.

Yn olaf, rydym o'r farn bod cyflwyno cam caniatâd ac amod 'anfantais sylweddol' yn creu mater sylweddol o ran mynediad at gyfiawnder. Os caiff ei gymhwyso'n ormodol o ffurfiol, mae'n debygol y bydd llai o achosion hawliau dynol yn cael eu clywed mewn gwrandawiad gwirioneddol. O dan yr amgylchiadau hyn, mae perygl y gallai'r amod fod yn torri Erthygl 6 y CEHD, ar sail amharu ar natur ymarferol ac effeithiol yr hawl i gael mynediad i lys.[41]

Nodwn hefyd nad yw 'anfantais sylweddol' wedi'i diffinio. Nid oes canllawiau ynghylch yr hyn sy'n sylweddol; a fydd y prawf yn cael ei benderfynu'n oddrychol neu'n wrthrychol; nac o ran ystyr anfantais.

At hynny, ni fyddai'r gofyniad o fod "wedi dioddef" anfantais sylweddol yn caniatáu i hawlwyr nad ydynt eto wedi dioddef unrhyw anfantais ac sy'n ceisio, drwy ddwyn achos, atal unrhyw anfantais rhag digwydd iddynt. Byddai'n rhaid i hawlwyr o'r fath aros nes eu bod wedi dioddef anfantais o'r fath cyn dwyn achos, a byddai'n aml wedyn yn rhy hwyr. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd hawliwr yn ceisio atal cyhoeddiad. Mae methiant i atal cyhoeddiad yn debygol o gael effaith negyddol ar blant gan fod cyhoeddiadau amdanynt yn y dyfodol yn debygol o effeithio'n fwy arnynt.

Dengys achos Gogledd Iwerddon JR159 [2021] NIQB 68 y math hwnnw o achos y buasai'n anodd ei symud ymlaen o ystyried y gofyniad uchod i "fod wedi dioddef" anfantais sylweddol o dan y "cam caniatâd" arfaethedig newydd. Ganwyd yr Ymgeisydd yn gynamserol ac roedd i fod i ddechrau yn yr ysgol gynradd ym mis Medi 2021. Roedd rhieni'r Ymgeisydd yn pryderu nad oedd y plentyn yn barod ar gyfer yr ysgol gynradd ac roeddent am ohirio hyn am flwyddyn. Nid oedd y ddeddfwriaeth addysg yn caniatáu gohirio. Canfu'r llys fod Erthygl 8 y CEHD wedi'i thorri. Canfu'r llys fod y cynllun statudol yn anghymesur o ran ei weithrediad oherwydd ei ddiffyg hyblygrwydd ac, felly, ei anallu i ymdrin yn ddigonol ag achos lle mae ei gwneud yn ofynnol i blentyn ddechrau addysg amser llawn yn yr

[39] Adran 27B(2), Deddf Llys y Sesiwn 1988
[40] Wightman v Eiriolwr Cyffredinol 2018 SC 388, paragraff 9
[41] Gweler er enghraifft Zubac v. Croatia [CBM], rhif 40160/12, 5 Ebrill 2018, para 97.

oedran dechrau ysgol gorfodol presennol yn amlwg yn groes i les pennaf y plentyn hwnnw ac yn ddigyfiawnhad gan y nodau y ceisia'r ddeddfwriaeth eu cyrraedd.

Bydd y cynigion hyn yn niweidiol i hawlwyr sy'n blant. Nid yw plant yn rheoli eu hachosion. Mae'r plant yn dibynnu ar yr oedolion o'u cwmpas i ddwyn hawliadau ar eu rhan ac i lywio'n llwyddiannus ofynion cyfarwyddo cyfreithiwr; cael cyllid a dwyn achos. Po fwyaf o rwystrau sy'n cael eu rhoi yn eu ffordd, y mwyaf tebygol ydynt o beidio â llwyddo yn yr hyn a allai fod yn hawliad teilwng. Er bod hyn yn debygol o effeithio ar bob hawliwr hawliau dynol, mae'r effaith negyddol yn debygol o fod yn fwy sylweddol i blant o ystyried eu dibyniaeth ar eraill i ddiogelu eu hawliau.

### Hawliau amodol a chyfyngedig

Rydym yn anghytuno'n sylfaenol bod egwyddor 'cymesuredd', sy'n sail i wneud penderfyniadau mewn perthynas â hawliau amodol o dan y CEHD (h.y. Erthyglau 8-11), wedi "creu ansicrwydd". Rydym hefyd o'r farn bod llysoedd yn eu hanfod yn gallu cydbwyso hawliau sy'n cystadlu â'i gilydd mewn achosion anodd heb fod angen canllawiau statudol.

Nodwn fod y rhesymeg y tu ôl i gynigion mewn perthynas â hawliau amodol yn deillio o 'estyniad barnwrol' canfyddedig o hawliau CEHD. Nid yw'r papur ymgynghori'n rhoi fawr ddim i gefnogi'r honiad hwn. Credwn fod hyn yn camddehongli'r ymarfer cydbwyso sy'n aml yn anodd a chynnil y mae llysoedd yn ymgymryd ag ef wrth ystyried achosion sy'n ymwneud â hawliau amodol, a fydd, wrth gwrs, yn cynnwys hawliau sy'n cystadlu â'i gilydd.

Mae'r cydbwysedd bregus hwn ar ei amlycaf mewn achosion sy'n ymwneud â hawl plant i fywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8 y CEHD. Rydym wedi cyfeirio at ddyfarniad Goruchaf Lys y DU yn ZH (Tanzania) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref[42] uchod, sydd, yn ein barn ni, yn dangos sut y gall ymarfer cydbwyso priodol sicrhau bod amgylchiadau penodol achos a bywydau'r teulu yn cael eu hystyried yn llawn, gan gynnwys lles pennaf y plentyn.

Credwn y gallai canllawiau neu reolau sy'n cyfyngu ar sut y dylai llysoedd gydbwyso hawliau gyfyngu'n ormodol ar lysoedd a'u hatal rhag ystyried a rhoi pwys i'r holl ffactorau perthnasol mewn achos, gan gynnwys hawliau plant.

Mewn achos diweddar gerbron Llys Hawliau Dynol Ewrop,[43] dywedodd y Llys fod alltudio gwladolyn o Nigeria wedi torri ei hawliau Erthygl 8. Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfu'r Llys mai dim ond y Rheolau Mewnfudo yr oedd yr Uwch Dribiwnlys wedi'u cymhwyso heb gynnal ymarfer cydbwyso llawn o dan Erthygl 8. Roedd hyn yn golygu bod y Tribiwnlys wedi methu ag ystyried lles pennaf plant yr ymgeisydd yn briodol wrth benderfynu a oedd ei alltudio'n gymesur.

Nodwn hefyd dystiolaeth Llys Hawliau Dynol Ewrop, sy'n dangos ymhellach fod llysoedd cenedlaethol yn gyffredinol yn taro'r cydbwysedd cywir wrth ddelio â hawliau amodol:

> "Dengys dadansoddiad o gyfraith achosion Strasbourg gan lysoedd domestig y DU ac yn arbennig ei llysoedd uwch ddealltwriaeth fanwl o gyfraith achosion y

[42] [2011] UKSC 4

[43] Unuane v. y Deyrnas Unedig, cais rhif 80343/17

> Llys. Mae hyn wedi'i atgyfnerthu a'i adeiladu'n sylweddol dros yr ugain mlynedd diwethaf ers i'r Ddeddf Hawliau Dynol ddod i rym [...] Byddai'r ffaith bod cyn lleied o droseddau wedi'u canfod yn erbyn y DU hefyd yn dadlau o blaid y ffaith bod llysoedd y DU yn llwyddo i gymhwyso'r Confensiwn ar lefel ddomestig."

## Hawliau a chyfrifoldebau

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bwriad i sicrhau bod y system yn taro "cydbwysedd priodol rhwng hawliau a chyfrifoldebau".[44] Fodd bynnag, mae hawliau dynol yn gyffredinol ac yn ddiamod. Maent yn rhan annatod o fod yn ddynol ac nid oes angen bodloni amodau neu gyfrifoldebau penodol er mwyn iddynt fod yn berthnasol i bawb. Mae deddfwriaeth sy'n nodi sail sylfaenol unrhyw hawliau dynol yn nodi'r hawliau hyn yn syml; mae'r hawliau'n gynhenid berthnasol i bawb, ni waeth sut y cânt eu hysgrifennu neu eu trafod.

Hawliau dynol yw'r rhyddid a'r amddiffyniadau y mae gan bawb hawl iddynt. Mae hawliau dynol yn gyffredinol: mae hyn yn golygu bod gan bob un ohonom yr un hawl i'n hawliau dynol. Mae hawliau dynol yn ddiymwad: mae hyn yn golygu na ddylid eu tynnu i ffwrdd, ac eithrio mewn sefyllfaoedd penodol ac yn ôl proses. Mae'r holl hawliau dynol hefyd yn annatod ac yn rhyngddibynnol. Mae hyn yn golygu na ellir profi un hawl yn llawn heb brofi'r holl hawliau eraill.

Felly, mae'r datganiadau drwy'r holl ddogfen ymgynghori ynghylch hawliau a chyfrifoldebau yn groes i'r ymrwymiad y bydd y Llywodraeth yn parhau'n ffyddlon i egwyddorion sylfaenol hawliau dynol.[45]

"Cyfrifoldeb" pleidiau gwladol yw gweithredu unrhyw hawliau o'r cytuniadau y maent wedi'u llofnodi a'u cadarnhau. Cadarnheir hyn yn nhestun rhagymadrodd y CEHD:

> "Yn cadarnhau mai'r Partïon Contractio Uchel, yn unol ag egwyddor datganoli, sydd â'r prif gyfrifoldeb i sicrhau'r hawliau a'r rhyddid a ddiffinnir yn y Confensiwn hwn a'r Protocolau arno.

Mae'r unig gyfeiriadau eraill at gyfrifoldebau yng Nghonfensiwn y CEHD yn ymwneud â hawliau amodol, megis rhyddid mynegiant o dan Erthygl 10. Mae gan eraill ddyletswyddau a chyfrifoldebau tuag at ei gilydd wrth arfer yr hawl hon oherwydd y gallu i ryddid barn effeithio ar hawliau dynol pobl eraill. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos mai dyma'r hyn y mae'r cynigion yn cyfeirio ato o ran cyfrifoldebau. Yn hytrach, mae'r enghreifftiau a nodir yn cyfeirio'n bennaf at "ddiystyrwch gwarthus" at hawliau pobl eraill drwy gomisiynu troseddau. Mae'r cynigion drwyddi draw yn defnyddio enghreifftiau o achosion eithafol sydd fel petaent wedi'u dethol yn ofalus ar gyfer mantais wleidyddol neu sgorio pwyntiau, megis hawliadau a wnaed gan garcharorion sy'n bwrw dedfryd neu mewn perthynas â hawliau pleidleisio carcharorion.

Yn yr un modd, yn CCUHP, dim ond mewn perthynas â rhieni a'r Wladwriaeth y sonnir am gyfrifoldebau:

> "Rhaid i lywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau rhieni a gofalwyr i gyfarwyddo ac arwain eu plant wrth iddynt dyfu, fel y gallant fwynhau eu

[44] Tudalen 3 y ddogfen ymgynghori
[45] Gweler tudalen 5 y ddogfen ymgynghori

> hawliau'n iawn" ac yn erthygl 18 "Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb am fagu eu plentyn a dylent bob amser ystyried beth sydd orau i'r plentyn. Rhaid i lywodraethau gefnogi rhieni drwy roi'r cymorth sydd ei angen arnynt, yn enwedig os yw rhieni'r plentyn yn gweithio" (Erthygl 5 CCUHP).

Mae paragraff 125 o'r cynigion yn cyfeirio at hawliau sydd wedi'u "datgysylltu o'n cyfrifoldebau fel dinasyddion" gan gyfeirio at y CEHD ac at Erthygl 29 o Ddatganiad Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, ac mae'n debyg bod yr olaf ohonynt yn gwneud y syniad o gyfrifoldebau yn "glir". Fodd bynnag, nid yw dyletswyddau yn y gymuned yr un fath â chyfeiriad penodol at gyfrifoldebau sy'n mynd law yn llaw â mwynhau hawliau. Mae llawer o hawliau dynol, gan gynnwys yn y CEHD, yn hawliau amodol y gellir cwtogi arnynt i ryw raddau wrth geisio sicrhau mwynhad pobl eraill o'u hawliau eu hunain neu wrth i wladwriaethau orfod arfer y dyletswyddau angenrheidiol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cyfateb i gyfrifoldebau ar ddinasyddion unigol, ac ers mor bell yn ôl â 1948, mae cyfreitheg ryngwladol wedi'i gwneud yn glir na ellir cyfyngu ar rai hawliau o gwbl, a dim ond o dan rai amodau y gellir cyfyngu ar gyfyngiadau eraill; dim ond gan y gyfraith y caiff cyfyngiadau eu rhagnodi; rhaid iddynt wasanaethu un o'r dibenion a restrir gan gyfraith ryngwladol; a rhaid iddynt fod yn gymesur â'r diben o ran eu difrifoldeb a'u dwyster.

Er bod yr hawliau parhaol yn y CEHD i'w cadw mewn unrhyw Fil Hawliau newydd, mae'n debyg y bwriedir cwtogi ar arfer yr hawliau hynny yn seiliedig ar ymddygiad, neu "gyfrifoldebau" fel y mae'r papur yn ei ddisgrifio.

Yn ogystal, ym mharagraff 112, y cynnig yw gadael ar waith yr agweddau ar y Ddeddf Hawliau Dynol na fuont yn broblemus yn ymarferol. Nid yw'n foesegol nac yn briodol 'dewis a dethol' pa agweddau ar hawliau dynol sy'n dderbyniol neu'n wleidyddol fanteisiol; mae hawliau dynol yn annatod ac yn cwmpasu popeth.

Yn sail i'n pryderon ynghylch y naratif hwn mae pryder am gyfiawnder i'r rhai mwyaf agored i niwed, gan gynnwys plant, os cwtogir yn annheg ar y gallu i hyd yn oed ddechrau hawliad.

Am y rhesymau uchod, rydym o'r farn y bydd y cynigion a nodir yn y papur ymgynghori yn gwanhau'n sylweddol y ffordd y caiff hawliau plant eu diogelu yn y DU. Felly, rydym yn argymell y dylid cynnal y Ddeddf Hawliau Dynol ar ei ffurf bresennol.

Bruce Adamson

**Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban**



Koulla Yiasouma

**Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon**



Yr Athro Sally Holland

**Comisiynydd Plant Cymru/Children's Commissioner for Wales**

